Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1495 Sefydlu strwythur o fewn y Senedd i wahardd gwleidyddion sy'n euog o ddichell fwriadol

Y Pwyllgor Deisebau | 3 Chwefror 2025
Petitions Committee | 3 February 2025

**Cyfeirnod:** SR25/10452-2

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1495

**Teitl y ddeiseb:** Sefydlu strwythur o fewn y Senedd i wahardd gwleidyddion sy'n euog o ddichell fwriadol

**Geiriad y ddeiseb:** Mae Adam Price AS yn ceisio cynnal gonestrwydd ac atebolrwydd yng ngwleidyddiaeth Cymru. Mae dweud celwydd yn parhau'n fater dadleuol mewn gwleidyddiaeth yn fyd-eang, ac mae'r fenter hon yn ymdrech glodwiw i ymdrin â'r mater hwn yn uniongyrchol. I feithrin ymddiriedaeth ymhlith pobl Cymru, mae'n rhaid parhau i drafod y mater. Mewn unrhyw broffesiwn, mae anonestrwydd fel arfer yn arwain at golli swydd; felly, mae'n syfrdanol y byddai gwleidyddion, sy'n gyfrifol am gyllid cyhoeddus gwerth biliynau o bunnoedd, yn gwrthwynebu mesurau o'r fath oni bai bod ganddynt rywbeth i'w guddio.

Drwy welliant i'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), roedd Adam Price AS yn bwriadu cyflwyno gweithdrefn a fyddai'n anghymwyso Aelodau o'r Senedd a gafwyd yn euog o ddichell fwriadol. Dylai'r Senedd gyflwyno cynnig i greu trosedd o ddichell.

# 1. Cefndir

## 1.1. Rheolau presennol ar onestrwydd yn y Senedd

Mae Rheol 2 o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd yn datgan "Rhaid i Aelodau weithredu'n onest". Mae'r Canllawiau ar y Cod Ymddygiad yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr hyn y gellir ei ystyried yn dorri Rheol 2. Mae'n dweud:

> Ni fyddai celwydd golau (e.e. honni ei fod yn 'iawn' pan fydd Aelod wedi blino mewn gwirionedd) neu ryw ddiffyg gwirionedd arall, yn cael ei ystyried yn achos o dorri'r Rheol hon. Yn yr un modd, er y disgwylir i Aelodau wirio ffeithiau'n rhesymol a gwirio eu honiadau, mae'n anochel y bydd datganiadau 'anghywir, ond wedi'u gwneud yn onest,' yn digwydd o bryd i'w gilydd. Er enghraifft, gallai Aelod gamddyfynnu ffigur ariannol yn anfwriadol ("£60,000" yn hytrach na "£600,000"). Ar yr amod bod yr Aelod wedi cywiro'r gwall cyn gynted â phosibl, mae cwynion o'r fath yn debygol o gael eu hystyried yn wamal neu'n flinderus.
>
> Byddai cwyn fel arfer yn seiliedig ar gelwydd honedig. Ymhlith pethau eraill, mae sylwedd canlyniadau celwydd yn debygol o fod yn ffactor wrth bennu cosb am ymddygiad o'r fath.

Y Senedd yw'r unig ddeddfwrfa yn y DU sydd â rheol yn ei Chod Ymddygiad sy'n ei gwneud yn ofynnol yn benodol i Aelodau 'weithredu'n onest'.

## 1.2. Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Cyflwynwyd Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) i'r Senedd ym mis Hydref 2023. Roedd y Bil yn cyflwyno amrywiaeth o newidiadau i weinyddiaeth etholiadau yng Nghymru. Yn ystod Cyfnod 2, cytunwyd ar welliant i'r Bil a fyddai wedi newid y seiliau ar gyfer anghymwyso Aelod o'r Senedd.

Byddai Adran 64 o'r Bil wedi diwygio Atodlen 1A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ychwanegu cyflawni'r drosedd o ddichell fel sail y gallai person gael ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd neu rhag sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad y Senedd amdani, a hynny am gyfnod o bedair blynedd.

Roedd adran 64 o'r Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2, yn datgan na ddylai person 'yn fwriadol' a 'chyda'r bwriad o gamarwain' wneud, cyhoeddi na pheri na chaniatáu cyhoeddi ar ei ran ddatganiad o ffaith y mae'n gwybod 'ei fod yn anwir neu'n camarwain drwy ddichell' a byddai bod wedi gwneud hynny yn drosedd y byddai anghymhwyso yn ddedfryd ar ei chyfer.

Darparwyd rhai eithriadau i'r rheol gyffredinol hon.

Yn dilyn trafodaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac Aelodau o'r Senedd a oedd yn gefnogol i gadw'r drosedd o 'ddichell fwriadol' o fewn y Bil, daethpwyd i gytundeb i ddileu'r adran ar ddichell o'r Bil yng Nghyfnod 3 (2 Gorffennaf 2024) yn gyfnewid am ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddeddfu ar y mater hwn erbyn 2026. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol pan oedd yn siarad yn ystod trafodion Cyfnod 3 o'r Bil, ar y pryd:

> "… bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth cyn 2026 ar gyfer gwahardd Aelodau ac ymgeiswyr a gafwyd yn euog o ddichell fwriadol trwy broses farnwrol annibynnol a bydd yn gwahodd y Pwyllgor i wneud cynigion i'r perwyl hwnnw."

# 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Safonau'r Senedd, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog, Huw Irranca-Davies AS, fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth ar ddichell ym mhumed flwyddyn ei rhaglen ddeddfwriaethol. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn anrhydeddu'r ymrwymiad a wnaethpwyd ganddi yn ystod Cyfnod 3 Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi dweud bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio drwy'r materion manwl sy'n gysylltiedig â chyflwyno deddfwriaeth ar y mater hwn i gwmpasu'r penderfyniadau polisi y bydd eu hangen. Mae wedi dweud ei bod yn hanfodol bod pob rhan o'r broses yn gallu symud ymlaen yn gyflym er mwyn i'r ddeddfwriaeth allu cael ei chyflwyno erbyn 2026.

Dyweodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> It is important that any system strikes the right balance between providing for an effective mode for member accountability, and not allowing the system to be used to prevent legitimate discourse.

Yn ei ymateb i'r Pwyllgor hwn ar y Ddeiseb, mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried gwaith Pwyllgor Safonau'r Senedd ar y gwaith hwn.

# 3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Ar 13 Mawrth 2024, ysgrifennodd Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru bryd hynny at Gadeirydd Pwyllgor Safonau'r Senedd gan ofyn i'r Pwyllgor ystyried y mater o anghymhwyso am y drosedd o ddichell fel rhan o'i ymchwiliad i Atebolrwydd Aelodau Unigol. Gwnaeth y Pwyllgor gytuno i wneud y gwaith hwn a chwblhau gwaith cwmpasu cychwynnol cyn lansio ymgynghoriad llawn ar Atebolrwydd Aelodau Unigol ar 31 Gorffennaf 2024.

Gofynnodd y Pwyllgor am safbwyntiau ar dri opsiwn mewn perthynas â dichell bwriadol:

- Opsiwn 1: Gwneud dichell fwriadol yn drosedd newydd.
- Opsiwn 2: Creu sancsiwn sifil ar gyfer dichell fwriadol dan oruchwyliaeth corff ymchwilio presennol ac mewn Tribiwnlys Cymreig annibynnol.
- Opsiwn 3: Cryfhau'r gofynion presennol ynghylch gonestrwydd yng Nghod Ymddygiad Aelodau o'r Senedd a'r sancsiynau sydd ynghlwm wrth dorri'r rheol.

Hefyd, fe gynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid rhwng mis Medi 2024 a mis Rhagfyr 2024.

Mae'r Pwyllgor i fod i gyhoeddi ei adroddiad terfynol gydag argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried yn mis Chwefror.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.